**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1293
Ein cyf/Our ref EM/02911/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Medi 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb P-06-1293 Dylid darparu cyllid ar gyfer mynediad cyffredinol i Wasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl werthfawr y mae'r Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn yn ei chwarae drwy ddarparu ymyrraeth gynnar, cynnig mynediad hawdd at ofal osteoporosis, a lleihau'r risg y gallai claf ddioddef toresgyrn eto.

Mae Dr Inder Singh, yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Cwympiadau ac Eiddilwch yng Nghymru, wedi blaenoriaethu'r gwaith hwn o fewn Grŵp Strategol y Rhaglen Archwilio Genedlaethol ar gyfer Toresgyrn yn sgil Cwympiadau ac Eiddilwch. Ar ôl i Adroddiad Blynyddol Cronfa Ddata'r Gwasanaethau Cyswllt hyn (www.rcplondon.ac.uk/projects/outputs/fls-database-annual-report-2022) gael ei gwblhau gan Goleg Brenhinol y Meddygon, a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2022, dechreuodd Dr Singh adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar draws Cymru, gan nodi arweinydd archwilio o fewn pob bwrdd iechyd. Yn sgil yr adolygiad hwn, cafwyd darlun clir o'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru, a thynnwyd sylw at yr amrywio sy'n digwydd o ran mynediad, a'r ystod o wasanaethau y mae'r pwyllgor yn cyfeirio atynt.

Er mwyn cefnogi'r maes gwaith pwysig hwn, sefydlwyd Grŵp Sicrhau Ansawdd a Datblygu cenedlaethol newydd ar gyfer y Gwasanaethau Cyswllt Torri Esgyrn, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid a'r arweinwyr archwilio. Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol ar 20 Gorffennaf 2022, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau'r archwiliad cenedlaethol a'r angen i wella, ac ar gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal ledled Cymru a lleihau'r risg y gallai cleifion, sydd wedi dioddef toresgyrn yn ddiweddar oherwydd eiddilwch, ddioddef toresgyrn eto.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn gweithio’n agos gyda’r Gymdeithas Osteoporosis Frenhinol *(Royal Osteoporosis Society)* ac yn gwrando ar leisiau cleifion er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun clir am sut y mae’r gwasanaethau hyn, neu’r diffyg mynediad teg at y gwasanaethau hyn, yn effeithio ar y boblogaeth.

Er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd iechyd esgyrn a phwysigrwydd trin osteoporosis, mae Llywodraeth Cymru wrthi’n trefnu cynhadledd genedlaethol i ddathlu Diwrnod Osteoporosis y Byd, er mwyn sicrhau bod y byrddau iechyd yng Nghymru yn ymrwymedig i ddatblygu gwasanaethau cyswllt torri esgyrn ar draws Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i wella effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal osteoporosis yn ein gwasanaethau presennol, gan weithio i ddatblygu’r ardaloedd hynny lle nad oes gwasanaethau ar hyn o bryd.

Y byrddau iechyd sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaeth, ac felly mae’n briodol bod cyllid ar gael drwy eu hadnoddau nhw. Byddwn yn gweithio gyda’r byrddau iechyd i sicrhau bod pwysigrwydd y gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael ei gydnabod o fewn eu gwasanaethau gan barhau i dalu sylw manwl i’r cynnydd a wneir.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services